Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Lonor2021

# Y Mynegai

## *Pam cael Mynegai?*

Yn ôl y gyfraith mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol gadw Cofrestr o Blant Anabl yn eu hardal. Yn Nhorfaen mae'n well gennym ei alw'n Fynegai. Mae'n ein helpu i gynllunio gwasanaethau a darparu gwybodaeth berthnasol i Rieni, Gofalwyr, Plant a Phobl Ifanc.

**Mae'r Mynegai yn wirfoddol - gall plant a'u Rhieni/Gofalwyr ddewis a ydyn nhw am gael eu cynnwys ar y Mynegai.**

## Pam ddylwn i roi fy mhlentyn ar y Mynegai?

- Helpu i gynllunio Gwasanaethau i Blant / Pobl Ifanc yn y dyfodol yn fwy effeithiol.
- Darparu gwybodaeth ystadegol i'r Llywodraeth.
- Gweithredu fel porth i'r Awdurdod Lleol a'i bartneriaid ofyn barn blant, pobl ifanc a'u teuluoedd a beth maen nhw eisiau (trwy ymgynghoriadau gwirfoddol).

## *I bwy mae'r mynegai?*

Plant neu bobl ifanc, o dan 18 oed, sydd ag anabledd sy'n cael effaith amlwg ar eu bywydau bob dydd, gan gynnwys plant ag:

- Anhwylder ar y sbectrwm awtistig
- Anawsterau ymddygiadol / cymdeithasol / emosiynol
- Salwch Cronig, Salwch sy'n Bygwth Bywyd neu Salwch Difrifol
- Cyflwr meddygol
- Anabledd corfforol
- Nam synhwyraidd
- Anabledd / anhawster dysgu
- Anableddau lluosog

**Plant ag Anabledd sy'n Gymwys i Gael Cymorth (cyswllt i'r wybodaeth)**

## *Nid yw'r Mynegai yn:*

- gysylltiedig ag unrhyw Gofrestr arall - nid oes cysylltiad rhwng y Mynegai a'r Gofrestr Amddiffyn Plant;
- amod ar gyfer derbyn gwasanaethau - nid oes rhaid i chi fod ar y Mynegai i dderbyn gwasanaethau gennym ni;
- atgyfeiriad i Wasanaethau Cymdeithasol; nac
- ar gael i unrhyw un sy'n holi - mae manylion ar y mynegai yn gwbl gyfrinachol ac ni rennir y wybodaeth gydag unrhyw asiantaethau eraill heblaw y rhoddir caniatâd.

# Y Mynegai

## Ein manylion cyswllt

Os oes angen mwy o help, cysylltwch â ni
Ffôn: 01495 762200
**E - bost:** socialcareCallTorfaen@torfaen.gov.uk
**Ein Cyfeiriad:**: Tîm Plant ag Anabledd
Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Thai
Canolfan Ddinesig Torfaen
Pontypool
Torfaen
NP4 6YB